# Trawsnewidiad Cenedl:

## Beth allwn ni ei ddysgu gan y Tadau Methodistaidd?

John Aaron

### Un ffaith hanesyddol fawr y Diwygiad Methodistaidd

Mae llawer o ffeithiau hanesyddol rhyfeddol yn gysylltiedig â hanesion y Tadau Methodistaidd, gŵr fel Howell Harris (1714-73), Daniel Rowland (1713-90), Thomas Charles (1755-1814), John Elias (1774-1841) a llawer rhagor, ond nid oes un, mi gredaf, i'w chymharu â'r ystadegau o ran nifer yr addolwyr.

| 1730 | 1851 |
|---|---|
| Tua 70-80 o achosion Anghydffurfiol yng Nghymru | 2,088 o gapeli Anghydffurfiol |
| 1-2% o boblogaeth y wlad yn eu mynychu (tua 7,000) | 53% o'r boblogaeth yn eu mynychu (tua 700,000)<br>15% ychwanegol yn aelodau yn yr Eglwys Wladol |

Hyd yn oed o dderbyn bod peth anghytundeb ynghylch yr union ffigyrau, nid yw hynny'n lleihau ffaith anghredadwy yr hyn a ddigwyddodd. Ymhen can mlynedd trawsnewidiwyd cenedl yn llwyr. Yn ei moesau, yn ei diwylliant, yn ei chredo, yn ei bywyd cymdeithasol, hyd yn oed yn ei gwleidyddiaeth, roedd cenedl y Cymry yn 1851 yn genedl hollol wahanol i'r eiddo 1730.

### Y rheswm am y ffaith hon

Defnyddiodd haneswyr academaidd ymadroddion megis 'apêl y newydd', neu 'y rhyddhad sydyn o egni wrth sylfaenu enwad newydd', neu oherwydd 'gallu trefniadol rhyfeddol Thomas Charles' (David Williams, *A History of Modern Wales).*

Annigonol yw'r rhesymau hyn. Mewn gwirionedd, nid oes esboniad posibl am y fath newid syfrdanol heblaw am esboniad goruwchnaturiol. Diwygiad yw'r unig esboniad credadwy. Effeithiau nerth a dylanwad yr Ysbryd Glân. Duw yn bendithio tref, neu ardal, neu wlad fel yn yr achos hwn, drwy ymweld â'r wlad mewn cyfnod o adfywiad.

Yr Ysbryd Glân yn chwythu lle y mynno, yn arddel pregethu ei weision, yn bywhau pechaduriaid a oedd yn feirw, ac yn gwneud hynny i'r fath raddau nes bod cymeriad cenedl yn newid. Dyna fel y deallai'r Methodistiaid eu hamserau, a thrwy edrych ar eu hymateb i'r gwirionedd hwn efallai y dysgwn rywbeth o werth i'n dyddiau ni.

### Y Tadau Methodistaidd a'r Ysbryd Glân

Mae geiriau Sechareia mor addas yn y cyswllt hwn:

> *Hyn yw gair yr Arglwydd at Sorobabel, gan ddywedyd, Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd* (Sechareia 4:6).

Neu 1 Corinthiaid 2:4:

> *A'm hymadrodd a'm pregeth i, ni bu mewn geiriau denu o ddoethineb ddynol, ond yn eglurhad yr Ysbryd a nerth.*

Gwelodd y Tadau yn yr adnodau hyn ddisgrifiad llythrennol o'u profiad hwythau wrth bregethu.

Roedd ymwybyddiaeth ddofn o'r Ysbryd Glân, a dibyniaeth lwyr arno:

> 1 Os oedd yr Ysbryd i arddel eu geiriau rhaid oedd sicrhau mai neges yr Ysbryd a bregethid. Golygai hynny, wrth gwrs, fod rhaid wrth neges Feiblaidd, ond pa neges o'r Beibl? Beth oedd y genadwri ddwyfol ar gyfer yr awr? Cyn dechrau ar baratoi pregeth rhaid, felly, oedd cael sicrwydd o feddwl yr Ysbryd. Dyma Robert Roberts, Clynnog, tua 1790:
>
> Galwodd y Parch. John Williams, Dolwyddelen, heibio iddo unwaith, i edrych amdano. Yr oedd y ddau yn gyfeillgar iawn… 'Robert bach,' meddai, 'dywedwch ym mha le y byddwch yn cael y pregethau ofnadwy yma sydd gennych?' Gafaelodd Robert Roberts yn ei